# Ystafell Argraffu

7 Mawrth 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

*O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn ofyn am fanylion niferoedd a phrisiau pob archeb a gyflwynwyd i ystafell argraffu'r Cynulliad Cenedlaethol gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.*

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y tabl isod yn geisiadau argraffu a deunydd ysgrifennu a wnaed i'r uned gopïo. Mae'r uned gopïo yn prosesu ceisiadau y gellir eu hariannu o gyllideb ganolog neu lwfans costau swyddfa Aelodau'r Cynulliad. Mae'r ffigurau cyfunol yn cael eu rhestru yn y tabl. Ymhlith yr eitemau y gellir eu hariannu o'r gyllideb ganolog hon mae penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, cardiau busnes, llyfrau nodiadau ac amlenni rhagargraffedig. Dim ond pan fo'n gymwys gwneud hynny y gellir defnyddio post rhagdaledig, er enghraifft i ddosbarthu hysbysiad ynghylch cymorthfeydd sy'n ymwneud â dyddiad penodol.

Gall Aelodau'r Cynulliad hawlio am geisiadau ar gyfer cylchlythyrau a llythyrau o dan y 'lwfans costau swyddfa' a chaiff ei gyhoeddi ar ein cronfa ddata treuliau (tri mis mewn ôl-ddyledion). Mae'r rheolau sy'n ymwneud â beth sydd gan Aelodau'r Cynulliad yr hawl i wneud cais amdano eu cynnwys yn y 'Penderfyniad'. Yn unol ag adran 1.3.3 isod:

*'Telir neu ad-delir lwfansau dim ond pan mae'r gost yn ymwneud ag Aelod yn cyflawni'i ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad. Ni ddylid gwneud cais am wariant sy'n ymwneud â gweithgaredd gwleidyddol gan blaid.'*

Os hoffech gael cyfarwyddiadau ar sut i chwilio'r gronfa ddata, byddem yn fwy na pharod i anfon cyfarwyddiadau manwl atoch.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@Assembly.Wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| Cyfnod (blwyddyn ariannol) | Ceisiadau argraffu | | Ceisiadau am ddeunydd ysgrifennu |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm y ceisiadau** | **Cyfanswm y gost** | **Cyfanswm y gost** |
| Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | 307 | £8,993.27 | £99,857.38 |
| Ebrill 2015 - Mawrth 2016 | 311 | £12,916.26 | £127,502.24 |
| Ebrill 2016 - Chwefror 2017 | 314 | £12,862.21 | £53,175.69 |
| **Cyfanswm** | **932** | **£34,771.74** | **£280,535.30** |

Er gwybodaeth, yn arwain i fyny at gyfnod etholiad y Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016, roedd archebion argraffu ychwanegol yn ofynnol wrth i Gomisiwn y Cynulliad gyhoeddi canllawiau penodol ar y diddymiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a oedd yn rhoi'r gorau i'w sedd ac i'r rhai a oedd yn sefyll i gael eu hailethol. Roedd y canllawiau penodol yn cynnwys ymdrin â gwaith achos a'r gofynion caniatâd sy'n gysylltiedig â Deddf Diogelu Data 1998.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn [www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx](www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx)
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF